



Cardiff
Students'
Union

Undeb
Myfyrwyr
Caerdydd

Adroddiad Effaith Blynyddol

2022-23

Cynnwys

- | | | | |
|----|-----------------------------|----|-----------------------------|
| 3 | Ein cylchred strategol | 11 | Cymuned Caerdydd |
| 4 | Ein cenhadaeth | 12 | Bywyd Academaidd |
| 5 | Swyddogion Sabothol | 13 | Profiadau myfyrwyr |
| 6 | Llwyddiannau i fyfyrwyr | 15 | Lles a'r dyfodol |
| 7 | Prif Weithredwr | 16 | Adnoddau |
| 8 | Llywydd Undeb y
Myfyrwyr | 17 | Pobl |
| 9 | Ymgysylltiad a boddhad | 18 | Digidol a data |
| 10 | Gwobrau | 19 | Cyllid |
| | | 20 | Ymddiriedolwyr
2022 - 23 |



Calon bywyd
myfyrwyr Caerdydd

Ein cylchred strategol

Yn 2021, lansiwyd ein Cynllun Strategol newydd fydd yn rhedeg tan 2025. Y flwyddyn academaidd yma oedd ail flwyddyn y cylchred ac adeiladwyd ar y gwaith gwych a gyflawnwyd yn 2021-22.

Ein Strategaeth

Mae'r strategaeth yn anelu i ailadeiladu gweithgareddau a gwasanaethau er mwyn cyrraedd ymgysylltiad myfyrwyr, incwm a boddhad o'r un lefelau a cyn y pandemig, tra'n cydnabod na fydd popeth yn dychwelyd yn gyflym o ganlyniad i ddiffyg cof myfyrwyr a newid yn nisgwyladau myfyrwyr wedi Covid-19.

Mae gan y strategaeth yma fwy o ffocws ar les myfyrwyr a ffocws ar y gwasanaethau sy'n helpu myfyrwyr brwydro yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd, gyda hynny wedi'i effeithio'n fawr yn ystod y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig.

2022-23 oedd y flwyddyn academaidd llawn

cyntaf o weithgaredd myfyrwyr nad sydd wedi'i heffeithio gan gyfyngiadau Covid, ac mi wnaeth ein galluogi i osod seiliau a gwneud cynnydd da tuag at gyflawni nodau ein strategaeth.



Ein cenhadaeth

Arweinyddiaeth myfyrwyr

- › Byddwn yn sicrhau fod myfyrwyr yn rhan o benderfyniadau ar draws pob lefel o'r sefydliad a'u bod yn teimlo y gallant greu newid.

Cynhwysiant

- › Rydym wedi'n hymroi i ymgysylltu â myfyrwyr, drwy leihau rhwystrau i gyfranogiad ac estyn allan i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Partneriaeth

- › Byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau gall ein helpu i gyrraedd ein blaenoriaethau strategol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, y gymuned ehangach a'r sector undeb myfyrwyr.

Amrywiaeth

- › Byddwn yn dathlu amrywiaeth ein staff ac aelodau myfyrwyr ac yn cefnogi myfyrwyr i gael llais er mwyn newid anghyfiawnderau mewn addysg a chymdeithas.



Swyddogion Sabothol



Noah



Rebecca



Shreshth



Angie



Olivia



Ashly

Llwyddiannau i fyfyrwyr

☀️ Gwnaethom wrando ar adborth gan gymdeithasau a gosod drychau yn ystafell cyfarfod 3A i gynyddu'r ardaloedd ymarfer yn yr adeilad i grwpiau myfyrwyr llai.

☀️ Lanswyd cinio £2 dyddiol i helpu myfyrwyr sydd ar gyllideb dynn ac yn y mis gyntaf cafodd bron 1,000 o brydau eu darparu.

☀️ Yn 'Barn y Myfyrwyr 2022: Ardaloedd Astudio ac Amseroedd Agor y Campws' ofynom i'r brifysgol am system fyddai'n helpu myfyrwyr ddarganfod faint o le sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd. Mae Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno adnodd newydd sy'n rhoi mewnwelediad byw i fyfyrwyr am ba mor brysur yw'r ardal (dydd a nos).

☀️ Lanswyd ein hardal Balconi newydd yn adeilad yr UM ar Gampws Cathays. Mae'r ardal wedi gwella'r Neuadd Fawr a chynyddu faint o bobl sy'n gallu mynychu'r clwb nos a'r Taf, ynghyd â darparu ardal astudio ychwanegol i fyfyrwyr yn ystod y dydd.

☀️ Wedi blynyddoedd o lobio am well ardaloedd astudio ar gampws Parc y Mynydd Bychan, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i agor ystafell gyffredin myfyrwyr newydd yn y Lolfa IV.

☀️ Gwnaeth y tîm swyddogion gwrdd â Chyngor Caerdydd i drafod materion yn ymwneud â llety myfyrwyr yng Nghaerdydd. O ganlyniad: (1) cytunodd Cyngor Caerdydd bod diffyg llety myfyrwyr yng Nghaerdydd. (2) Dywedodd Cyngor Caerdydd fod angen i ddarparwyr preifat chwarae rôl, ond bod hefyd angen ateb holistaidd, a dylai fod gan y prifysgolion cynllun am lety myfyrwyr. (3) Gwnaeth arweinydd y Cyngor cytuno i godi'r mater pan fyddai'n cwrdd â lGau y prifysgolion. (4) Cytunodd Cyngor Caerdydd weithio'n agosach â'r Undeb Myfyrwyr ymhob un o'r prifysgolion fel rhan o'u cynllun am bartneriaeth agosach gyda'r prifysgolion.

Prif Weithredwr

Roedd 2022-23 yn flwyddyn ffantastig am ymgysylltiad myfyrwyr a llwyddiant masnachol ar draws y sefydliad unwaith eto, gyda'n hadloniant gyda'r nos yn gweld y niferoedd uchaf erioed o fynychwyr ac incwm.

Roedd yn flwyddyn fawr am waith adeiladu, gyda gwelliannau mawr i ardal y Balconi yn y Neuadd Fawr, a wnaeth gwella hygyrchedd ein cerddoriaeth fyw a darparu ardal astudio ychwanegol i fyfyrwyr yn ystod y dydd. Mae'r ardal amlwrpas yn amgylchynu'r Neuadd Fawr. Wedi'u trefnu fel un prosiect rhwng Mai a Medi 2022 cafodd yr ardaloedd eu hariannu gan gymysgedd o grantiau ychwanegol gan y Brifysgol, cyllid yr Undeb ei hun ac arian a godwyd wrth fynychwyr cerddoriaeth fyw trwy ardoll hygyrchedd.

Ynghyd â datblygiad y Balconi, cynhaliom waith i gysylltu ein hadeilad gyda Chanolfan Bywyd y Myfyrwyr gan greu mynedfa newydd sy'n cysylltu'r UM gyda'r ardal ffantastig newydd yma i fyfyrwyr. Agorwyd yr ardaloedd newydd ar ddiwedd y flwyddyn ac rydym yn disgwyl gweld buddion pellach yn 2023/24 a'r dyfodol.

Roedd 2022-23 yn flwyddyn ffantastig am ymgysylltiad myfyrwyr a llwyddiant masnachol //

Yn olaf, roedd yn ffrainc cyhoeddi ein bod wedi dod yn 2il yng Ngwobrau Dewis y Myfyriwr WhatUni ar gyfer yr Undeb Myfyrwyr gorau. Mae'n wych gwybod bod gwaith caled ac ymrwymiad ein staff yn cael ei gydnabod gan ein myfyrwyr gyda sgoriau boddhad ffantastig

Daniel Palmer
Prif Weithredwr



Llywydd yr Undeb Myfyrwyr

Ein prif ymgyrch am 22-23 oedd cefnogi myfyrwyr gyda'r argyfwng costau byw. Diolch i gyllid allanol, llwyddodd yr UM darparu amrywiaeth eang o fentrau a gweithgareddau i helpu lleddfu'r baich ariannol ar fyfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys darparu ciniawau £2, eitemau bwyd am ddim trwy ymgyrch 'Bwydo Eich Fflat' a the a choffi am ddim yn Y Lolfa, Ystafell Gyffredin y Lolfa IV a'r Ardal Astudio Ôl-raddedig.

Gweithiodd y tîm o Swyddogion Etholedig yn ddiflino er mwyn cyflawni ymgyrchoedd a gweithgareddau wnaeth buddio'r gymuned myfyrwyr. Fe wnaethom gynnal ein Hwylthnos Cymdeithasu Sobr gyntaf, rhedeg ymgyrch PrEPare a oedd yn ffocysu ar bwysigrwydd profion iechyd rhywiol, a gwnaeth Becky Deverell, ein His-lywydd Lles diwethaf cynnal nifer o ddigwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar les gan gynnwys Y Seibiant Mawr, Cŵn Cysur, Ffrind Ffolant ac Urddas Mislif. Yn 2022 cafodd Is-lywydd Iaith Cymuned a Diwylliant Cymru ei ethol am y tro cyntaf ac

rydym yn edrych ymlaen at eich diweddaru am y gwaith gwych sy'n cael ei gwblhau dwy'r rôl yma yn adroddiadau'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd roeddwn i a Gina Dunn (Llywydd yr UM 22-23) yn rhan o'r broses o recriwtio Is-ganghellor newydd ar gyfer Prifysgol Caerdydd. Roeddwn yn falch iawn cafodd Wendy Larner ei phenodi fel yr Is-ganghellor benywaidd cyntaf ac edrychwn ymlaen at weithio gyda hi dros y flwyddyn nesaf.

Angie Flores Acuña

Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig 2022-23

Llywydd yr Undeb Myfyrwyr 2023-24



Ymgysylltiad a boddhad

Gwnaeth ymgysylltiad myfyrwyr yn ystod y flwyddyn parhau i dorri recordiau, gyda mwy o fyfyrwyr yn ymgysylltu â ni o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Gwnaeth cyfanswm yr ymgysylltiadau cwmpo ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda hyn yn ddisgwyliedig oherwydd cyddwyso ymgysylltiad gan fyfyrwyr a gollodd allan ar ddarpariaeth yn ystod y ddwy flynedd cafodd eu tarfu arnynt gan y pandemig. Ond rydym yn hyderus y bydd ymgysylltiad myfyrwyr yn parhau i ffynnu yn 2023/24 wrth i ni gymryd mantais o'n hardaloedd newydd, a gweld cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr ac darpariaeth addysg mewn person gan y Brifysgol.

Wrth i'n galluoedd casglu data cynyddu, pob blwyddyn rydym yn anelu i adeiladu ein cylch ymgysylltiad i ddangos faint o bobl wnaeth ymgysylltu ag Undeb y Myfyrwyr. Mae mynychwyr Ffeiriau'r Glas eleni wedi cael eu cynnwys gan ychwanegu 11,000 ymgysylltiad newydd.

Mae deall pa mor bodlon yw myfyrwyr gyda gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr ac os ydyn ni'n cael effaith positif ar eu bywydau o ddydd i ddydd yn bwysig i ni, felly rydym yn edrych trwy gydol y flwyddyn i weld sut rydyn ni'n gwneud hyd hynny:

Dywedodd 82% o fyfyrwyr eu bod yn blodon neu'n fodlon iawn gyda'r digwyddiadau a gweithgareddau cafodd eu darparu yn ystod Y Glas [Arolwg adborth Myfyrwyr Y Glas: 978]

Dywedodd 76.6% o fyfyrwyr eu bod yn cytuno fod Undeb y Myfyrwyr yn cael effaith positif ar eu bywydau [Casglu data Wythnos Siarad: 2492]

Gwobrau



Am yr ail flwyddyn yn olynol, daethom yn ail yng Ngwobrau Dewis y Myfyriwr WhatUni am yr Undeb Myfyrwyr gorau yn 2023.



Enillodd Gair Rhydd y Cyhoeddiad Gorau yng Ngwobrau Rhanbarthol Cyhoeddiadau Myfyrwyr.



Daeth ein Hundeb Athletau yn 11eg ym mhencampwriaeth BUCS

(Ni yw'r sefydliad a rhestrir uchaf yng Nghymru a'r sefydliad nad sy'n darparu graddau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a rhestrir uchaf).



Enillodd Xpress Radio 3 gwobr yng Ngwobrau Radio Myfyrwyr gan gynnwys efydd am y Rhaglen Digwyddiadau Gorau, arian am y Rhaglen Podlediad Gorau, ac arian am y Rhaglen Newyddiadurol Gorau.



Cymuned Caerdydd

Rydym yn gweithio i rymuso myfyrwyr i arwain a datblygu cyfleoedd i adeiladu eu cymdeithasau, gan flaenoriaethu datblygiad gweithgareddau sy'n tyfu aelodaeth amrywiol.

Gwnaethom gefnogi myfyrwyr i fynd tu allan a gwneud ymarfer corff trwy ein hymgyrch Hop Cam a Naid i mewn i'r Gwanwyn, a ddarparodd offer ymarfer corff am ddim i fyfyrwyr ynghyd â thrafodaeth am fuddion aros yn actif. O fatiau chwaraeon i offer codi pwysau a thalebau i'r gampfa gwnaeth yr ymgyrch helpu dymchwel y rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.

Roedd 2022-23 hefyd yn flwyddyn dda iawn i ddigwyddiadau Urdd y Cymdeithasau, gyda chynnydd mewn rhaid digwyddiadau a chyflwyniad digwyddiad diwylliannol newydd – Cwtch Diwylliant. Nod Cwtch Diwylliant oedd dathlu amrywiaeth a diwylliant aelodaeth Urdd y Cymdeithasau trwy fwyd, ffasiwn a pherfformiadau. Roedd gwahoddiad i bob cymdeithas ddiwylliannol gyda 349 o docynnau wedi eu gwerthu i fyfyrwyr.

Niferoedd ymgysylltiad myfyrwyr:

- › Ymunodd 5,225 o fyfyrwyr â'r Undeb Athletaidd ac roedd 1,300 o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn wythnosol.
- › 8,566 o fyfyrwyr wedi ymuno ag Urdd y Cymdeithasau fel rhan o 243 o gymdeithasau cysylltiedig.
- › 120 o fyfyrwyr wedi'u hyfforddi i yrru cerbydau â hyd at 9 sedd. Gwnaeth ein grwpiau myfyrwyr gyrru 118,913 milltir (4.5 gwaith o amgylch y ddaear), mewn cerbydau wedi'u rhentu neu eu llogi, gan eu

galluogi i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol eraill ar draws y DU.

- › Roedd gan 100 o grwpiau fyfyrwyr Swyddog Lles wnaeth dderbyn hyfforddiant gan ein gwasanaeth Cyngor Myfyrwyr a Beyond Equality, partner allanol. Mae Swyddog Lles yn darparu cymorth gwerthfawr i'w cyd-fyfyrwyr ac yn eu cyfeirio tuag at gyngor defnyddiol.
- › Cafodd 39 taith undydd i 21 o leoliadau eu cynnal gan dîm Rho Gynnig Arni, gan ddarparu cyfleoedd teithio a chymdeithasol i fyfyrwyr.

Bywyd academaidd

Mae UMC yn anelu i gefnogi myfyrwyr ymhob agwedd o'u bywyd myfyrwyr, eu grymuso i lunio eu haddysg a darparu cefnogaeth os bydd pethau'n mynd o'u lle.

Eleni roedd tîm Llais y Myfyriwr wedi'u hysgogi gan yr awydd i wella dyfnder ymgysylltiadau yn hytrach na'u nifer. Er enghraifft, tra bod y nifer o Gynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol (-67) roedd y canran o gynrychiolwyr cafodd eu hyfforddi ac a ymgysylltodd â gweithgareddau ychwanegol yr UM wedi codi o 52% i 69% eleni.

Gwnaeth y tîm Cyngor Myfyrwyr parhau i gefnogi myfyrwyr lle bod pethau wedi mynd yn anghywir, gyda 3,657 o fyfyrwyr yn cael mynediad i gymorth a chyngor annibynnol trwy'r gwasanaeth yn y flwyddyn ddiwethaf.

Niferoedd ymgysylltiad academaidd:

- › Gwnaeth mwy na 9,500 o fyfyrwyr pleidleisio yn ein hetholiadau Hydref a Gwanwyn gyda 7,507 o fyfyrwyr yn pleidleisio am eu Swyddogion Sabothol nesaf ym mis Mawrth.

- › Cafodd 4,384 o sylwadau eu casglu yn ystod Wythnos Siarad. Mae'r adborth pwysig yma yn helpu llunio sut mae'r Brifysgol yn gweithio ac mae'n effeithio beth mae ein Swyddogion Sabothol yn penderfynu lobïo i'w newid ar ran myfyrwyr.
- › Gwnaeth 1,106 o fyfyrwyr cyflwyno ceisiadau i Wobrau Cyfoethogi Bywyd y Myfyrwyr, cynnydd o fwy na 750 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd Gwobrau Cyfoethogi Bywyd y Myfyrwyr eu creu i gydnabod y staff a myfyrwyr ffantastig sy'n cyfrannu i brofiad myfyrwyr Caerdydd felly mae'n galonogol gweld cymaint o fyfyrwyr yn enwebu.



Profiad myfyrwyr

Mae UMC yn anelu i ddarparu digwyddiadau a gwasanaethau eithriadol i bob myfyriwr, gyda ffocws ar gynigion amrywiol trwy gydol y dydd a'r nos. Yn ystod 2022-23, gwnaeth y sefydliad ffocysu ar wella'r ardaloedd ar gael i fyfyrwyr gan gynnwys ehangu ardaloedd digwyddiadau a chynyddu ardaloedd astudio yn yr adeilad.

Cafodd gwelliannau a gwaith adnewyddu eu gwneud i'r Ganolfan Groeso, balconi'r Neuadd Fawr ac ardaloedd mynediad, gan greu mynediad hyblyg a bywiog i'r adeilad ac ehangu ardaloedd adloniant.

Gwnaeth cyflwyno ardal y Balconi cwbl trawsnewid y profiad cafodd myfyrwyr wrth fynychu ein ffeiriau, a chafodd digwyddiadau

eu hehangu ar draws dau lawr gan gynyddu ein presenoldeb cyffredinol. Yn ogystal, mae wedi cynyddu faint o bobl gall mynychu'r Taf a'r clwb nos yn sylweddol. Yn ychwanegol, rydym wedi creu ardaloedd astudio i fyfyrwyr trwy gydol y flwyddyn, gan bwysleisio'r gallu i addasu ein hystafelloedd amlbwrpas.

Gwnaeth poblogrwydd ein digwyddiadau clwb nos cynyddu yn 2022-23, gyda 105,781 o bobl yn mynychu YOLO, ein noswaith clwb dydd Mercher, ar draws y flwyddyn – dyma'r tro cyntaf i ni gael mwy na 100,000 o fynychwyr. Er hyn, roedd yn flwyddyn heriol wrth i gostau gweithredu gweld cynnydd serth a gwnaeth gwariant y pen yn ein bariau lleihau.

Eleni cawsom y nifer mwyaf o bobl yn mynychu Ffeiriau'r Glas ers i gofnodion ddechrau, gyda dros 19,000 o bobl yn dod i'r 5 ffair. //



Am y tro gyntaf ers sawl blwyddyn llwyddodd Undeb y Myfyrwyr defnyddio maes parcio Prif Adeilad y Brifysgol am ddigwyddiad awyr agored Y Glas a wnaeth helpu amrywio'r math o ddigwyddiadau ar gael i fyfyrwyr wrth iddyn nhw gyrraedd Caerdydd. Roedd ein digwyddiad Sinema Dawel yn boblogaidd gyda mwy na 200 o fyfyrwyr yn mynychu.

Gwnaeth Caru Caerdydd, siop Undeb y Myfyrwyr derbyn eu nifer mwyaf o werthiannau ers i gofnodion dechrau, gyda hyn rhannol o ganlyniad i gynydd mawr yn yr amrywiaeth o gynnyrch ar gael, gyda'r siop nawr yn gwerthu i ysgolion ac adrannau.

Gwasanaethau Myfyrwyr mewn rhifau:

Gwnaeth ein hasiantaeth dai, Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd, cymryd rheolaeth o 70 eiddo o asiantaethau eraill. Mae hyn wedi cynyddu'r nifer o eiddo rydym yn eu rheoli gan 50% o 149 i 219 yn ystod y flwyddyn academaidd.

Eleni daeth y nifer mwyaf o bobl i Ffeiriau'r Glas ers i gofnodion dechrau gyda dros 19,000 yn mynychu'r 5 ffair. Roedd yn enwedig o wych i weld ffair Parc y Mynydd Bychan yn dychwelyd, a'n cael ei gynnal yn y clwb Chwaraeon a Chymdeithasu.



Lles a'r dyfodol

Cafodd ffocws sylweddol ei osod ar gefnogi myfyrwyr trwy'r argyfwng costau byw a nodwyd tlodi bwyd fel un o'r pryderon mwyaf i fyfyrwyr.

- › Diolch i £50,000 o gyllid grant gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, llwyddom ddarparu cyfres o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd i gefnogi myfyrwyr trwy'r argyfwng costau byw ac i hybu gwell iechyd a lles.
- › Gwnaeth 1096 o fyfyrwyr brynu ciniawau £2 yn ystod y tymhorau ar gampws.
- › Gwnaeth ein hymgyrch Urddas Mislif barhau am ei ail flwyddyn. Mae miloedd o gynnyrch mislif ychwanegol wedi cael eu prynu i barhau i gefnogi mynediad am ddim i gynnyrch mislif ar gampws.
- › Mae cyfleusterau gwneud diod dwym am ddim wedi cael eu cyflwyno yn Y Lolfa yn adeilad yr UM yn Cathays, ac yn Lolfa IV Parc y Mynydd Bychan. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i leihau'r gost o astudio ar gampws, drwy ddarparu eitemau hanfodol megis te, coffi, a llaeth (gan gynnwys dewisiadau llaeth amgen). Hyd yma mae dros 5,000 o ddioddydd twym wedi cael eu gwneud am ddim gyda'r cyfleusterau yma.
- › Trwy gydol Wythnos Genedlaethol Arian Myfyrwyr, mi wnaethom rannu syniadau, gwybodaeth a chymorth am gyllidebu a rheoli arian. Gwnaeth myfyrwyr ymgysylltu â stondinau rhyngweithiol, adnoddau ar-lein a sgysiau gyda'n tîm cyngor.
- › Gwnaeth ein tîm Siop Swyddi parhau i ddarparu llawer o gyfleoedd gwaith i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn ariannol anodd, lle'r oedd nifer cynyddol o fyfyrwyr yn ddibynol ar waith rhan-amser ar gyfer incwm ychwanegol. Yn ystod 2022-23 fe wnaethon nhw dalu bron £2,800,000 mewn cyflogau i mewn i gyfrifon banc myfyrwyr ar draws 7,388 lleoliad gwaith, gan helpu myfyrwyr rheoli eu cyllid.



Adnoddau

Mae adnoddau yn cynnwys sefydlogrwydd ariannol UMC ynghyd â'r ardaloedd ffisegol ac asedau rydym wedi'u datblygu er budd myfyrwyr. Gall adroddiadau ariannol cael eu darganfod ar dudalen 19.

Ein hardaloedd

Yn dilyn agoriad yr ardal Balconi newydd ac ailddatblygiad y Lolfa ar y 3ydd llawr, rydym wedi gweithio i hyrwyddo argaeledd ein hardaloedd amlbwrpas i fyfyrwyr. Mae'r Undeb Myfyrwyr yn darparu ardaloedd astudio gwerthfawr i'r gymuned myfyrwyr ac ers dychweliad myfyrwyr i'r campws wedi'r pandemig, mae cyfathrebu argaeledd ardaloedd a chael pobl yn ôl i mewn i'r adeilad wedi bod yn bwysig i'r sefydliad.

Cynaliadwyedd

Mae'r tîm cyfleusterau wedi cynyddu faint o wastraff rydym yn ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi i 88% (o 77% yn 2021-22). Mae dargyfeirio'r gwastraff yma pob blwyddyn i ailgylchu, treuliad anaerobig a llosgi yn gwella ein cynaliadwyedd amgylcheddol.



Pobl

Mae Undeb Myfyrwyr
Caerdydd yn anelu i gael tîm
ymgysylltiedig, cyfartal ar
draws staff a gwirfoddolwyr.

- Derbynion mesur bodlonrwydd o 92%
allan o'r staff wnaeth cwblhau Arolwg
Ymgysylltiad Gweithwyr NUS mewn
ymateb i'r datganiad 'Bydden yn
awgrymu'r sefydliad yma fel lle
gwydych i weithio'.

**Bydden yn
awgrymu'r
sefydliad yma fel lle
gwydych i weithio //**



Digidol a data

Ers y pandemig rydym wedi ymgymryd â dull 'digidol yn gyntaf' ar draws y sefydliad ac rydym wedi parhau i adeiladu ar hyn yn ystod 2022-23.

Fe wnaethom dyfu nifer ein dilynwyrs Instagram gan 25% ar draws y flwyddyn, gan gyrraedd 18.4m o ddilynwyrs erbyn mis Awst. Gwnaethom hefyd ddyblu dilynwyrs ein cyfrif TikTok sydd nawr yn ei ail flwyddyn.

Cafodd ein gwefan blwyddyn dda arall, gyda phobl yn edrych arno bron 8 miliwn o weithiau rhwng Awst – Gorffennaf.



Cyllid

Cyfanswm incwm yr Undeb oedd £12,393,500 (2022 - £12,318,155) gyda chyfanswm gwariant o £12,643,876 (2022 £11,064,178) yn ystod y flwyddyn.

Arweiniodd dirwyn y ddarpariaeth bensiwn gostyngol i ben, debyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol o £(390,908) (2022 - £398,444). Arweiniodd hyn at gostau net o £(641,284) (2022 - incwm net £1,652,421). Mae hyn yn cynnwys diffyg cyfyngedig o £(541,390) a diffyg anghyfyngedig o £(99,894).

Ar 31 Gorffennaf 2023, roedd cronfeydd wrth gefn yr Undeb yn dod i £1,746,589 (2022 - £1,534,034) ac roedd yr ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sylfaen ariannol gadarn i barhau i weithredu tuag at ei amcanion a gweithgareddau. Yn ogystal, cafodd £43,608 (2022 - £584,998) ychwanegol ei gadw mewn cronfeydd cyfyngedig.

O fewn is-gwmni masnachu'r Undeb, 'Cardiff Union Services Limited', cynyddodd trosiant i £5,515,116 (2022 - £5,237,048) gan arwain at elw gros o £2,517,348 (2022 - £2,611,536).

Cynyddodd costau gweinyddol i £4,808,546 (2022 - £4,191,369) yn y flwyddyn. Adroddodd yr is-gwmni masnachu elw o £80,034 (2022 - £1,088,843).

Yn ystod y flwyddyn cynyddodd rhwymedigaeth pensiwn yr is-gwmni masnachu i £4,821,724 (2022 - £4,757,753), gyda hyn yn deillio o ail-werthuso rhwymedigaethau yn y dyfodol. Mae'r cynnydd mewn sefyllfa diffyg o ganlyniad i ymestyn cyfnod y cynllun adfer i 2037 yn hytrach na 2035. Mae'r diffyg yn deillio o rwymedigaethau'r cwmni yn y dyfodol tuag at Gynllun Blwydd-dal yr Undeb Myfyrwyr (CBUM). Mae'r ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr yn fodlon fod ganddynt y cyllid i gwrdd â'r rhwymedigaethau'r i'r gronfa wrth iddynt ddisgyn yn ddyledus dros oes y cynllun adfer diffyg a drefnwyd hyd at 2037.

Ymddiriedolwyr 2022-23

Ymddiriedolwyr Sabothol

Llywydd Undeb y Myfyrwyr:

Angie Flores Acuña
(o 1af Gorffennaf 2023)

Llywydd Undeb y Myfyrwyr:

Gina Dunn
(i 30ain Mehefin 2023)

Is-lywydd Cymdeithasau a

Gwirfoddoli:

Madison Hutchinson
(o 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Cymdeithasau

a Gwirfoddoli:

Shreshth Goel
(i 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Chwaraeon a

Llywydd yr UA:

Georgia Spry
(o 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Chwaraeon a

Llywydd yr UA:

Olivia Evans
(o 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Addysg:

Noah Russell
(o 31ain Hydref 2022)

Is-lywydd Addysg:

Thomas Walsh
(o 1af Gorffennaf 2022 i 30ain Medi 2022)

Is-lywydd Campws Parc

y Mynydd Bychan:

Alex Meers
(o 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Campws Parc

y Mynydd Bychan:

Ashly Alava García
(i 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig:

Micaela Panes
(o 1af Gorffennaf 2022)

Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig:

Angie Flores Acuña
(o 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Lles ac Ymgyrchoedd:

Rebecca Deverell
(o 1af Gorffennaf 2023)

Is-lywydd Iaith, Cymuned a

Diwylliant Cymru:

Deio Siôn Llewelyn Owen
(o 1af Gorffennaf 2023)

Ymddiriedolwyr Myfyrwyr

Matthew Bird (o 8fed Rhagfyr 2022 i 30ain Mehefin 2023)

Chris Grayson-Diamond (i 30ain Mehefin 2023)

Courtney Endall
(o 19eg Gorffennaf 2023)

Michael Summers
(o 19eg Gorffennaf 2023)

Ymddiriedolwyr wedi'u Henwebu gan y Brifysgol

Jayne Sadgrove

Agnes Xavier-Phillips

Ymddiriedolwyr Allanol

Elliot Howells

Ray Singh CBE

Tim Rheoli

Prif Weithredwr:

Daniel Palmer

Dirprwy Brif Weithredwr:

Ben Eagle

Cyfarwyddwr Cyllid:

Jan Boyce

Cyfarwyddwr Cyfathrebu:

Raechel Matthey

Cyfarwyddwr Ymgysylltu a

Chyfranogiad:

Steve Wilford

Swyddfa gofrestredig

Plas y Parc, Caerdydd, Cymru.
CF10 3QN

Rhif Cwmni Cofrestredig:
07328777

Rhif Elusen Gofrestredig: 1137163



Cardiff
Students'
Union

Undeb
Myfyrwyr
Caerdydd